# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MAWRTH, 8FED MAWRTH, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

***(i gael mynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni)***

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 28 Chwefror 2022)

**AELODAETH:**

**Cyngor Gwynedd:**

| | |
|---|---|
| E. Selwyn Griffiths | Aelod Lleol |
| Alwyn Gruffydd | Aelod Lleol |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |

**Aelodau Cyfetholedig:**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Llywelyn Rhys | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| I'w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| I’w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| Dr John Jones-Morris | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Chris Fisher | Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Cricieth |

**Sylwedyddion:**

| | |
|---|---|
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| David Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Cynghorydd Rob Triggs | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 2021 fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR 8 - 13

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 11 Hydref, 2022 yn ddarostyngedig i'w gadarnhau gan y Cyngor Llawn.

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG DYDD MAWRTH, 5 HYDREF 2021**

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd a Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Rheolwr Morwrol), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/22.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Nia Jeffreys yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/22.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Llewelyn Rhys (Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog), David Eastwood (Cynrychiolydd Buddiannau Harbwr), Chris Fisher (Cynrychiolydd Sefydliad y Bad Achub Cricieth) a'r Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth, 2021, fel rhai cywir.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR**

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr harbwr.

(1) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad bras i'r pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021.

Gan gyfeirio at ran 2 o'r adroddiad – Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod – nododd yr Uwch Swyddog Harbyrau y cafodd 1,302 o Fadau Dŵr Personol (Jetskis) ac 1,308 o Gychod Pŵer eu cofrestru ar-lein ac mewn person, gan roi cyfanswm o 2,610 o gofrestriadau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am garthu'r harbwr, eglurodd y Rheolwr Morwrol:-

- O dan ddeddfwriaeth harbwr Porthmadog, nad oedd yna bwerau i'r Cyngor garthu heb fynd drwy brosesau, a bod Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir wedi tynhau cryn dipyn ar warchod yr amgylchedd, a hefyd wedi tynhau ar allu harbyrau i garthu heb fynd drwy brosesau statudol.
- Bod harbwr Porthmadog yn harbwr sy'n siltio'n araf deg, gyda'r defnydd yn dod yn ôl i mewn i'r harbwr yn araf deg.
- Yr amharwyd ar brosesau naturiol yn sylweddol pan adeiladwyd y Cob a Phont Glaslyn.
- Y rhybuddiwyd ar adeg caniatáu'r pontwns y byddai hynny'n creu ardal o ddŵr distaw, ac y byddai popeth sy'n cael ei gario i lawr yr afon yn cael ei adael ar ôl yn yr harbwr, gan na fyddai yna ddigon o lif i'w gario allan i'r môr.
- O safbwynt ardal y pontwns, yn sicr ni fyddai'r Cyngor yn carthu ardal lle nad oes ganddo gyfrifoldeb na les drosti.
- Y byddai'n anodd iawn cael gwared â llaid o harbwr Porthmadog. Byddai'n rhaid ei sugno a'i bwmpio allan i'r môr, ond byddai'n rhaid ei brofi yn gyntaf, a chael trwydded morol, mae'n debyg, cyn y gellid cychwyn ar y broses.
- Er ar raddfa dipyn gwahanol, bod cynlluniau i garthu Doc Fictoria, Caernarfon a Hafan Pwllheli yn werth £280,000.
- Y byddai'n cymryd amser i wneud asesiadau rheoliadau cynefinoedd.
- Y byddai'n hapus i edrych i mewn i'r mater, ond na ellid rhoi unrhyw addewid y byddai'n bosib' carthu harbwr Porthmadog yn y dyfodol.

Cytunodd aelod â'r sylwadau hyn gan nodi:

- Na chredai fod pwrpas carthu'r harbwr, gan nad oedd y sianel o fewn yr harbwr wedi newid fawr ddim mewn 45 mlynedd.
- Pe dymunid cynyddu niferoedd yr angorfeydd, y byddai'n llawer gwell gosod pontwns i lawr canol yr harbwr, fel y gallai'r dŵr lifo bob ochr iddynt, ac efallai cael system i gludo pobl at eu cychod.

Nododd y Rheolwr Morwrol fod amcangyfrif o gyllidebau'r harbwr o 1/4/20 i 31/3/21 ac 1/4/21 i 30/9/21 wedi'u hanfon at yr aelodau yn ddiweddar iawn, a manylodd ar y sefyllfa gyfredol gan nodi:-

- Y penodwyd nifer mwy o staff eleni i ymdopi â'r niferoedd a ragwelwyd fyddai'n ymweld â'r arfordir dros yr haf, a'i bod yn braf gweld cymaint yn mwynhau'r hyn sydd gan yr ardal hon i'w chynnig. Er hynny, mynegwyd siomedigaeth bod rhai pobl wedi ymddwyn yn fygythiol tuag at y staff.
- Bod yr angen i chwistrellu dŵr i galedu tywod meddal ger y fynedfa i gerbydau i draeth Morfa Bychan wedi cael effaith ar y niferoedd oedd yn gallu cael mynediad at y traeth ar rai adegau yn ystod yr haf.
- Oherwydd y pandemig, ein bod £22,500 yn brin o'n targed incwm yn 2020/21, a bod hynny wedi arwain at orwariant o £23,000 yn yr harbwr yn ystod y flwyddyn.
- Y rhagwelid gorwariant o ychydig llai na £18,000 yn ein cyllideb eleni.
- Bod y targed incwm am eleni yn £65,000. Llwyddwyd i gyrraedd £64,000 hyd yma, a rhagwelid y byddem yn cyrraedd ein targed incwm am y flwyddyn.
- O ran cynnal a chadw'r harbwr, roedd y gyllideb yn £10,000, ond roedd y gwariant hyd yma wedi bod yn £25,000. Gan hynny rhagwelid y byddai

yna o leiaf £5,000 o wariant ychwanegol, a olygai £20,000 o orwariant ar y pennawd offer a chelfi yn yr harbwr eleni.

- Y byddai'n rhaid gwneud popeth sy'n bosib' yn y gaeaf i leihau costau i'r trethdalwyr.
- Y byddai'r gyllideb forwrol yn ei chyfanswm yn gallu ymdopi gyda'r £18,000 o orwariant ym Mhorthmadog, ac roeddem yn ffodus hefyd bod 2,610 o gychod wedi cofrestru eleni ac y byddai hyn yn hwb i'r gyllideb incwm. Hefyd, roedd cynnydd yn niferoedd y cychod yn Harbwr a Hafan Pwllheli (378 o gymharu â'r 280 a ragwelwyd) wedi cynorthwyo'r ffrwd incwm i gyfrannu at y gyllideb.
- Y byddai'r buddsoddiadau yn parhau ym Mhorthmadog, ond bychan iawn oedd y gyllideb ar eu cyfer.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y Rheolwr Morwrol mai ychydig iawn o incwm cofrestru Badau Dŵr Personol oedd yn dod i mewn i gyllideb harbwr Porthmadog, a bod yr incwm yn mynd i'r gyllideb traethau, oni bai bod y badau yn cael eu lansio yn uniongyrchol i mewn i'r dŵr yn Harbwr Porthmadog. Nodwyd y gellid edrych ar y sefyllfa, ond mae'n debyg bod y maes parcio bychan yng nghefn yr harbwr yn dod â thipyn mwy o incwm i mewn na lansio'r cychod. Nodwyd hefyd y byddai'r £18,000 o orwariant ym Mhorthmadog yn cael ei sybsideiddio drwy benawdau cyllidebau morwrol eraill. Holwyd a fyddai'n bosib' ymestyn y maes parcio er mwyn creu mwy o incwm. Mewn ymateb, cytunodd y Rheolwr Morwrol i wneud archwiliad o'r maes parcio dros y gaeaf er mwyn gwerthuso'r opsiynau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r gorwariant ar y gyllideb 'offer a chelfi', eglurodd y Rheolwr Morwrol y bu'n rhaid pwrcasu nifer o gadwyni ar gyfer angorfeydd a chymorthyddion mordwyo. Hefyd, gwariwyd tua £13,000 – £14,000 ar waith cynnal a chadw i ddod â'r cwch 'Dwyfor' i safon y Cod Mordwyo.

(2) Adroddiad yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021, gan gynnwys materion cynnal a chadw, sefyllfa sianel fordwyo a chymhorthydd mordwyo, rhaglen waith y gaeaf ac ardal Borth y Gest.

Gan gyfeirio at ran 4 o'r adroddiad, atgoffodd y Rheolwr Morwrol yr aelodau o'r ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â sicrhau bod Badau Dŵr Personol (sy'n cynnwys jetskis), yn dod dan ddeddfwriaeth. Nodwyd bod yr ymgynghoriad yn cau ar 1 Tachwedd, 2021.

Eglurwyd bod yr ymgynghoriad yn cynnig 4 opsiwn, sef:-

- Opsiwn 1 – gwneud dim
- Opsiwn 2 – cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol o'r newydd (fyddai'n cymryd blynyddoedd)
- Opsiwn 3 – deddfu dan y Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 (opsiwn sy'n cael ei ffafrio)
- Opsiwn 4 – newid y diffiniad o 'long' dan Ddeddf Llongau Masnach 1995

Gofynnwyd am gefnogaeth y pwyllgor i opsiwn 3. Cefnogwyd yr opsiwn hwn gan yr aelodau, a gofynnwyd hefyd am gynnwys cynffon yn yr ymateb yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau hyfforddiant i ddefnyddwyr, a hefyd yn galw am godi'r terfyn oedran ar gyfer gyrru badau dŵr hamdden a phersonol.

Diolchodd y Rheolwr Morwrol i Robert Owen, Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol, am y cyfleoedd mae'n roi, fel gwerthwr Badau Dŵr Personol a chychod pleser, i bobl dderbyn hyfforddiant. Nodwyd bod y niferoedd sy'n cymryd rhan yn y cyrsiau hyfforddiant ar gynnydd, a gofynnwyd iddo gyfleu diolchiadau'r pwyllgor harbwr i'w hyfforddwyr yn ogystal.

Nododd y Rheolwr Morwrol ymhellach mai ychydig iawn o gwynion oedd yn cael eu derbyn ynglŷn â Badau Dŵr Personol yn ardal Porthmadog / Morfa Bychan, a bod pobl yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar y cyfan. Nododd yr Harbwrfeistr fod y symudiad tuag at gofrestru cychod pŵer a Badau Dŵr Personol ar-lein wedi tynnu llawer o waith oddi ar yr Adran a'r staff ar y traethau.

Awgrymodd Robert Owen, Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol, y gallai eu prif hyfforddwr, sy'n rhedeg busnes o'r iard gychod, wneud cyfraniad gwerthfawr i waith y pwyllgor harbwr. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Morwrol fod yna un sedd wag ar y pwyllgor, ond, yn unol â'r Cyfansoddiad, bod rhaid i'r cynrychiolwyr ffitio i mewn i'r categorïau aelodaeth sy'n bodoli eisoes. Cytunodd i drafod ymhellach gyda'r Cadeirydd a'r aelod er mwyn mapio'r ffordd ymlaen.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi a derbyn yr adroddiad.**

**(b) Ymateb fel a ganlyn i bapur ymgynghori'r Adran Drafnidiaeth "*Strengthening enforcement of the dangerous use of recreational and personal watercraft*":-**

- **Bod y pwyllgor hwn yn ffafrio opsiwn 3, sef llunio deddfwriaeth dan adran 112 o Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 i ymestyn darpariaethau perthnasol Deddf Llongau Masnach 1995, a rheoliadau perthnasol, i gynnwys badau dŵr hamdden a phersonol.**
- **Pwysleisio pwysigrwydd sicrhau hyfforddiant i ddefnyddwyr a galw am godi'r terfyn oedran ar gyfer gyrru badau dŵr hamdden a phersonol.**

## 8. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 8 Mawrth, 2022.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30 y.h. a daeth i ben am 6.30 y.h.

**CADEIRYDD**

Eitem 5

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **8 Mawrth 2022** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbwr** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y flwyddyn a ddaw i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2022, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

**2. Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod**

2.1 Fel yn y blynyddoedd diwethaf, rhagwelir y cynhelir archwiliad tanddwr o'r angorfeydd yn yr harbwr cyn cyfnod y Pasg, yn amodol i ymrwymiadau'r contractwr angorfeydd a chyflwr y tywydd ar y pryd.

2.2 Y llynedd, cyflwynwyd system gofrestru Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol Cyngor Gwynedd drwy drefniant ar-lein, oedd yn caniatáu i gwsmeriaid ddewis y lleoliad mwyaf addas i gasglu trwyddedau cofrestru a lansio.

Yn dilyn llwyddiant y trefniant yma, bydd angen i gwsmeriaid gofrestru drwy wefan Cyngor Gwynedd, ar y system gofrestru a thalu ar-lein fydd yn agor ar 31 Mawrth 2022.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

3.1.1 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

3.2 Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o ran-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu'n berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymorthyddion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Porthmadog.

3.1.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn gyda safonau diogelwch yn harbyrau Gwynedd a bod y rhain yn cael eu cadw gan gynnal archwiliad allanol o'r cod gan yr unigolyn a ddynodwyd, Capten Matthew Forbes, Harbwrfeistr Conwy.

**4. Materion Staffio**

4.1 Mae staff yr harbwr wedi parhau i weithio o swyddfa'r harbwr drwy gydol epidemig diweddaraf amrywiolyn Omicron y Coronafeirws i sicrhau diogelwch yr harbwr gan gydymffurfio gyda Rheoliadau Coronafeirws presennol Llywodraeth Cymru. Mae'r addasiadau yn swyddfa'r harbwr yn parhau yn eu lle, gan gynnwys y sgrin Persbecs ar gownter y cyhoedd i sicrhau diogelwch y staff yn ystod ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd.

4.2 Mae'r Harbwrfeistr a'i gymhorthydd wedi ymgymryd â rhaglen o waith cynnal a chadw dros y gaeaf yn yr harbwr, yn ychwanegol i ddarparu cymorth o ran y gwaith sydd ei angen yn Harbyrau Aberdyfi ac Abermaw. Bydd rhagor o waith yn cael ei ymgymryd yn benodol mewn perthynas ag angorfeydd yr harbwr a'r marciau mordwyo cyn i gyfnod prysur yr haf ddechrau.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Trafodir crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol yn y cyfarfod gan y Prif Swyddog Morwrol.

5.2 Yn ystod y cyfnod yma, bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Goleufeydd
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cychod patrôl yr Harbwr
- Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd
- Offer a chyfarpar gan gynnwys offer diogelwch

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2022/23.** Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad o ran y ffioedd a'r taliadau drafft yn Harbwr Porthmadog ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Chychod Personol am dymor 2022/23.

Yr arwyddion presennol yw bydd ffioedd a thaliadau yn codi yn unol â graddfa chwyddiant. Atodwn, er gwybodaeth, gopi o’r ffioedd arfaethedig. Nid yw’r rhain wedi eu cadarnhau.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Mae Harbwrfeistr Porthmadog wedi darparu crynodeb byr o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **8 Mawrth 2022** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **M. Humphreys, Harbwrfeistr Porthmadog** |

## H 1 Materion Mordwyo

1.1 Mae'r sianel fordwyo i harbwr Porthmadog wedi cael ei monitro gan staff yr harbwr dros y gaeaf. Mae llwybr y sianel yn parhau yn ddeinamig iawn gyda'r fynedfa i'r sianel ar hyn o bryd yn symud tua chyfeiriad Cricieth.

1.2 Mae traethell fawr wedi ffurfio ger y Tŷ Powdr gyda thraethell arall wedi ffurfio rhwng 'Ynys Balast' a marc llaw starbord Rhif 17, ar ran allanol yr harbwr mewnol. Mae'r symudiad diwethaf yma o dywod wedi achosi i bedwar bwi angorfeydd sy'n eiddo i iard gychod Madog i sychu allan yn gyfan gwbl a chyn bo hir bydd angen symud bwi Rhif 17 i leoliad mwy addas.

1.3 O'r herwydd, mae tri Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym ar hyn o bryd;

1.3.1 Hysbysiad i Forwyr rhif 24/21 - nid yw'r cymhorthydd mordwyo starbord Bwi Rhif 1 ar ei safle priodol. Ar hyn o bryd, mae'r bwi ar draeth Harlech yn aros i gael ei adfer. Er yr ymdrechion a wnaed, ni fu'n bosib hyd yma i adfer y bwi o'r traeth oherwydd natur feddal yr arwyneb ynghyd â'r gwaith dringo serth o'r traeth i gyrraedd yr arwyneb tarmac uwchben. Gwneir ymdrechion pellach wedi cyfnod o law pan fydd arwyneb y tywod yn ei gwneud yn haws i gyrraedd y bwi a'i adfer.

1.3.2 Hysbysiad i Forwyr rhif 01/22 - nid yw'r bwi cymhorthydd mordwyo Port Rhif 6 yn ei leoliad arferol ar hyn o bryd. Mae'r bwi yn cael ei adnewyddu yn yr harbwr wedi iddo gael ei olchi i'r lan. Unwaith y bydd wedi ei adnewyddu, caiff y bwi ei ddychwelyd i leoliad addas yn y sianel.

1.3.3 Hysbysa'r Gwasanaeth y bydd yr holl farciau mordwyo yn eu lle ac yn gweithredu'n llawn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib, yn dibynnu ar ymrwymiadau staff o ran y tywydd ac amodau'r llanw ar y pryd.

1.4 Bydd staff yr Harbwr yn parhau i fonitro llwybr y sianel a symud y cymhorthion mordwyo pan a phryd fo angen i sicrhau eu bod yn darparu'r llwybr mwyaf diogel i mewn ac allan o'r harbwr. Gyda'r Gwanwyn ar ei ffordd, hyderwn y bydd llwybr y sianel fordwyo yn sefydlogi.

1.5 Atgoffir morwyr o'r angen i fordwyo'r sianel 1.5 awr naill ochr i'r penllanw wrth fordwyo llong gyda dyfnder mwy na 1.5 metr. Rydym hefyd yn atgoffa morwyr y dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr cyn cyrraedd i dderbyn y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf. Bydd newidiadau i unrhyw gymhorthion mordwyo yn cael eu cylchredeg drwy Hysbysiad Lleol i Forwyr.

## H 2 Materion Gweithredol

2.1 Trwy gydol y gaeaf, mae symudiadau llongau yn nynesfeydd yr harbwr a'r sianel wedi bod yn gyfyngedig iawn. Arhosodd 41 o gychod yn nyfroedd yr harbwr dros y gaeaf, gyda'r mwyafrif wedi eu hangori i'r pontynau sy'n eiddo i Glwb Hwylio Madog.

2.2 Hyd yma, nid yw'r harbwr wedi dioddef yn ddrwg o stormydd y gaeaf ac ni adroddwyd am unrhyw ddifrod i unrhyw gychod na strwythur. Fodd bynnag, dinistriwyd to y Ganolfan gerllaw, gyda darnau ohono yn glanio ar oleuadau'r harbwr.

2.2 Rhagwelir bydd y cychod hynny sydd ar y lan yn yr iardiau cychod yn dychwelyd yn raddol i'r dŵr fel y daw y Pasg. Yn ôl nifer yr ymholiadau a wnaed yn swyddfa'r harbwr dros y gaeaf o ran argaeledd angorfeydd, mae'r gwasanaeth yn gobeithio cael tymor prysur, er effeithiau parhaus coronafeirws.

## H 3 Cynnal a Chadw

3.1 Disgwylir y bydd gwaith cynnal a chadw ar angorfeydd yr harbwr yn cael ei wneud cyn i'r tymor prysur ddechrau, yn dilyn archwiliad tanddwr o gyflwr yr angorfeydd presennol sydd yn yr harbwr. Darparwyd amcangyfrif cost net o £1650 i'r Gwasanaeth ar gyfer cost cynnal yr archwiliad tanddwr.

3.2 Bydd dwy ysgol newydd yn cael eu gosod ar ochr y cei yn lle'r rhai sydd yno yn awr, a ddaeth i ddiwedd eu hoes, ger pont Britannia. Mae'r gwaith o gynhyrchu'r ysgolion yn cael ei wneud gan weithiwr metel lleol ac rydym yn aros i'r ysgolion gyrraedd.

3.2.1 Caiff mynedfa newydd ddiogel ei chreu wrth rheiliau yr harbwr i'r dwyrain o swyddfa'r harbwr i helpu teithwyr i fyrddio a gadael cychod sydd wedi angori ger ochr y cei yn y lleoliad hwnnw. Darperir grisiau concrid ar arwyneb llechen isaf ochr y cei mewn cysylltiad â hyn. Bydd y fynedfa newydd yn cyd-fynd â darpariaeth un o'r ysgolion newydd.

3.3 Yn ddiweddar, gwnaed gwaith cynnal a chadw i injan cwch Y Dwyfor, a gafodd waith atgyweirio strwythurol helaeth y llynedd, yn dilyn problemau efo'r tanwydd oedd yn achosi i'r cwch golli pŵer.

3.3.1 Bydd cwch patrôl 'Powercat' yr harbwr sy'n gweithio ar y môr yn derbyn gwasanaeth blynyddol i'r injan ddwbl gan gwmni lleol yn fuan, i baratoi ar gyfer y tymor prysur sydd i ddod.

3.3.2 Tynnwyd y cwch gweini bychan, a ddefnyddir gan staff yr harbwr, o'r dŵr ar gyfer gwaith cynnal a chadw blynyddol. Mae'r cwch ar hyn o bryd yn cael ei baentio gan staff yr harbwr gyda rhagor o waith i'w wneud ar bwyntiau diogelu'r ffender a'r rhwyfau.

3.4 Mae'r Gwasanaeth eisiau newid y cynhwysydd storio y gellir ei gloi sydd yng nghefn swyddfa'r harbwr, oherwydd y dirywiad yn wyneb metel y cynhwysydd presennol, yn enwedig y to sy'n gollwng mewn sawl lle ar ben yr offer tu mewn. Mae'r gwasanaeth wedi cael amcangyfrif cost net o £3600 am gynhwysydd 20tr yn ei le.

3.5 Rydym yn parhau i adnewyddu'r meinciau o gwmpas yr harbwr ac mae rhagor o waith sydd angen ei gwblhau. Mae'r gwasanaeth yn dal i dderbyn ceisiadau i leoli meinciau o gwmpas yr harbwr, gyda llefydd cyfyngedig ar gael yn unig.

**H 4 Materion Eraill**

4.1 **Borth-y-Gest**. Bydd giatiau yr amddiffynfeydd môr ar ben y llithrfa yn cael eu cynnal a'u cadw gyda chymorth gweithiwr metel lleol. Dymuna'r gwasanaeth atgoffa defnyddwyr yr harbwr o'r angen i'r giatiau metel aros ynghau yn ystod y gaeaf.


4.1.1 Mae dal angen gosod silffoedd dingi sy'n edrych dros y maes parcio ym Mhorth-y-Gest i geisio tacluso'r ardal laswelltog, lle mae nifer o gychod yn cael eu cadw ar hyn o bryd.

4.2 **Traeth Morfa Bychan.** Bu'n rhaid i staff yr harbwr fynd i'r brif fynedfa i'r traeth ar sawl achlysur yn ystod y gaeaf i hel a chlirio sbwriel a gwastraff cyffredinol a daflwyd yn ddi-drefn o amgylch y biniau gwastraff ger y toiledau. O'r herwydd mae'r Gwasanaeth yn hysbysu y bu'n rhaid symud y biniau dros dro o'r lleoliad dyma i atal perygl i iechyd cyhoeddus.

H5 **Digwyddiadau**

5.1 Er i ni ragweld hyn, nid yw'r Gwasanaeth wedi cael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau arfaethedig yn Harbwr Porthmadog eleni. Dymuna'r Gwasanaeth atgoffa trefnwyr digwyddiadau o'r angen i roi gwybod ymlaen llaw am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig i ni er mwyn iddynt dderbyn caniatâd.

5.2 Wrth ystyried caniatáu unrhyw ddigwyddiad, bydd y Gwasanaeth yn rhoi sylw dyladwy i'r sefyllfa o ran Coronafeirws ac unrhyw gyfyngiadau, amodau i'w gosod neu derfynau sydd eu hangen i sicrhau diogelwch y cyhoedd a'r staff.


Harbwr Porthmadog Harbour
Mae'r sianel yn newid ei chwrs yn rheolaidd, cynghorir bod morwyr yn cysylltu efo'r Harbwrfeistr ym Mhorthmadog am y wybodaeth ddiweddaraf
The channel changes it's course on a regular basis, it's adviced to contact the Harbourmaster at Porthmadog for the latest information.
01766 512927 / 07879 433 147, VHF 12/16
07/02/2022
Borth y Gest
Cei Balast
17 FLG 6s
15 FLG 2 5s
Bae Samson
12 FLR 4s
Cwt powdr
Powder house
11 FLG5 20s
Traeth y Graig Ddu
Black Rock Sands
Banc y Gogledd
North bank
10 FLR 2.5s
Cynghorir morwyr i beidio mordwyo dros y draethell oni bai fod o fewn 2 awr pob ochor i'r pen llanw, cychod gyda draft fwy na 1.5 i fod fewn 1.5 awr bob ochor i'r pen llanw.
The channel should not be used at any time other than 2hrs either side of high water,vessels with a draft greater than 1.5m should only use the channel 1.5 hrs either side of high water
9 FLG 4 15s
Trwyn Harlech Point
4 FLR 2 5s
2 QFLR
N
FAIRWAY
LFL W 10s
Rhybydd / Caution
Nid yw gael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo
Not to be used for navigation